Cais i Wirfoddoli

Enw:

Enw'r ganolfan yr hoffech gael eich lleoli ynddi:

halo®

www.haloleisure.org.uk

Cyflwyniad i Halo

Diolch am eich diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Halo. Gobeithio y bydd y wybodaeth ganlynol yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth i chi o'n busnes a'n diwylliant ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais wedi ei gwblhau.

Beth yw Halo?

Sefydlwyd Halo ym mis Ebrill 2002 fel ymddiriedolaeth hamdden "ddielw". Golyga hyn ein bod wedi ein sefydlu er budd y gymuned yn hytrach na chodi arian i gyfranddalwyr cwmni. Rydym yn sefydliad sy'n wirioneddol gymunedol. Rydym hefyd yn Elusen Gofrestredig.

Mae Halo yn cael ei reoli gan fwrdd o ymddiriedolwyr o bob rhan o'r Sir gan gynrychioli cydbwysedd eang o ganolbwynt cymunedol a menter fasnachol a busnes. Mae dau gynghorydd lleol ar y bwrdd Ymddiriedolwyr.

Rydym yn gweithredu canolfannau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swydd Henffordd a Swydd Amwythig.

Mae'r Ganolfan Gymorth wedi ei lleoli yn Llanllieni ac mae'n cynnwys staff cymorth, Uwch Dîm Rheoli a Phrif Weithredwr.

Ethos Halo

Fel sefydliad mae angen ymdeimlad o bwrpas arnom y mae pawb yn ei ddeall ac yn ymrwymo iddo. Gwelir hyn yng ngweledigaeth a chenhadaeth Halo.

Gweledigaeth "Elfen hanfodol mewn cymunedau fel darparwr gweithgareddau a gwasanaethau hamdden o'r radd flaenaf"

Mission "Cyflawni safon, arloesedd a rhagoriaeth ym mhopeth rydym yn ei wneud a chael ein cydnabod fel model o arfer gorau a chyflogwr o ddewis"

Themâu allweddol Halo

Rydym wedi datblygu tair thema allweddol i'n cynorthwyo wrth gyflawni ein hamcanion. Mae'r rhain yn hanfodol wrth droi ein cenhadaeth yn nodau ac amcanion ac yna ymhellach yn gynlluniau gwaith. Dyma'r themâu:

Cwsmeriaid "Sicrhau bod Halo'n parhau'n frand dibynadwy sy'n denu, yn cadw ac yn rhoi pleser i gwsmeriaid ac sy'n cael ei gydnabod fel cydran werthfawr, allweddol ledled y Sir fel menter gymdeithasol ac elusen gofrestredig"

Ein Pobl "Sicrhau bod Halo yn parhau'n gyflogwr o ddewis, y mae ei weithwyr yn deyrngar i'r cwmni ac yn falch ohono"

Cynaliadwyedd "Sicrhau hyfywedd Halo a'i allu i ailfuddsoddi drwy ddatblygu incwm parhaus a chadarn ynghyd â rheoli costau'n effeithiol"

Crynodeb

Mae Halo mewn sefyllfa unigryw i wella'r gwead cymdeithasol a chymunedol yn Swydd Henffordd a Sir Pen-y-bont ar Ogwr, gan weithio gyda'n prif bartner, Cyngor Swydd Henffordd, a grwpiau cymunedol eraill.

Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sy'n wybodus, yn gyfeillgar ac sy'n meddu ar ymrwymiad diffuant i ddarparu profiad pleserus i'n cwsmeriaid.

Croeso i Halo Gobeithio y byddwch yn ymuno â ni.

Y Broses Wirfoddoli

Caiff pob cais ei ystyried yn erbyn y swyddi sydd ar gael. Os bydd y cais yn llwyddiannus cewch eich gwahodd am gyfarfod anffurfiol a chofrestru.

Canllawiau ar gyfer cwblhau'r Ffurflen Gais Gwirfoddolwr

Cwblhewch y ffurflen mewn **inc neu deip du** oherwydd bydd yn cael ei llungopïo. Mae'r ffurflen ar gael yn electronig i chi ei lawrlwytho ar ein gwefan www.haloleisure.org.uk

Sgiliau, Galluoedd, Gwybodaeth a Phrofiad

Dyma eich cyfle i ddangos y rhinweddau y gallwch eu cyflwyno i'r rôl wirfoddoli. Dylech gysylltu eich sgiliau, eich galluoedd, eich gwybodaeth a'ch profiad â'r meysydd y mae gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli ynddynt a rhowch enghreifftiau penodol lle y bo'n bosibl. Cofiwch fod gwaith â thâl neu'n ddi-dâl a sgiliau cartref/bywyd yn cael eu cyfrif fel sgiliau a phrofiad dilys.

Argaeledd

Efallai y cewch eich gwahodd dros y ffôn. Os nad ydych am inni gysylltu â chi yn y gwaith nodwch hyn ar y ffurflen.

Anabledd

O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, mae gan Halo ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw trefniadau nac eiddo yn rhoi person anabl o dan anfantais o gymharu â pherson nad yw'n anabl. Ni fydd y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn berthnasol oni bai ein bod yn gwybod bod gennych anabledd.

Cyfle Cyfartal

Nod Halo yw sicrhau bod pobl yn cael eu dewis dim ond yn ôl eu gallu i gyflawni unrhyw dasgau. I'n helpu i sicrhau bod ein polisi cyfle cyfartal yn cael ei weithredu'n llawn ac yn deg cwblhewch y ffurflen fonitro amgaeedig gyda'r ffurflen gais. Fe'i defnyddir at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Bydd cofnod o hyn yn rhan o'ch cofnod personol.

Collfarnau Troseddol

Rydym yn gofyn am fanylion unrhyw gollfarnau troseddol 'heb ddarfod' sydd gennych. Ceir Meysydd penodol sydd wedi eu heithrio o dan ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Golyga hyn bod yn rhaid i chi ddatgan collfarnau sydd 'wedi darfod' neu 'heb eu darfod'.

O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, daw collfarn yn un 'wedi darfod' (h.y. ei thrin fel pe na bai erioed wedi digwydd) lle nad yw'r unigolyn, ar ôl cyfnod penodol o amser, wedi cyflawni trosedd ddifrifol arall. Mae cyfnodau adsefydlu yn amrywio gan ddibynnu ar fath a hyd y gollfarn a gafwyd yn wreiddiol Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, ffoniwch 0845 241 348.

Geirdaon

Gellir cael geirdaon pan fyddwch yn mynd i'r cyfarfod cofrestru. Os nad ydych am inni gysylltu â chanolwyr tan i gynnig amodol gael ei wneud, ticiwch y blwch priodol.

Datganiad

Cofiwch lofnodi a dyddio eich cais a'i ddychwelyd i'r Ganolfan Halo rydych am wirfoddoli ynddi.

Rhaid llenwi'r ffurflen hon yn llawn gan ddefnyddio INC NEU DEIP DU oherwydd bydd yn cael ei llungopïo.

Mae'r ffurflen gais ar gael mewn print bras.

Meysydd sydd o ddiddordeb i chi:

Ym mha safle/safleoedd:

Cais i Wirfoddoli

MANYLION PERSONOL

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall ☐			
Cyfenw:		Enwau Cyntaf:	
Cyfeiriad:			
		Cod post:	
Rhif ffôn (gyda'r nos):		Rhif ffôn (dydd):	
Rhif ffôn symudol:		Cyfeiriad e-bost:	
Dyddiad Geni:		Rhif Y.G:	
Cyfeiriad cyswllt os yw'n wahanol i'r uchod:			
		Cod post:	

HANES CYFLOGAETH / PROFIAD GWAITH

Enw a Chyfeiriad y Cyflogwr Presennol / Mwyaf Diweddar:			
Swydd a Chyflog:			
Dyddiad Dechrau:		Dyddiad Gadael a'r Rheswm (os yw'n berthnasol):	
Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:			

Swydd a Dyletswyddau Allweddol	Dyddiadau O – Tan: (mis/ blwyddyn)	Rheswm dros adael

(Os bydd angen, gallwch ddefnyddio'r Ddalen Barhau ar Dudalen 9)

SGILIAU, GALLUOEDD, GWYBODAETH A PHROFIAD

Rhowch fanylion eich sgiliau, gwybodaeth a'ch profiad a fyddai, yn eich barn chi, yn eich gwneud yn ymgeisydd addas. Gallai'r rhain gynnwys gweithgareddau amser hamdden neu waith gwirfoddol. Cyfeiriwch at y meini prawf ar y fanyleb person a'r canllawiau amgaeedig.

(Os bydd angen, gallwch ddefnyddio'r Ddalen Barhau ar gefn y Ffurflen Gais).

ADDYSG, CYMWYSTERAU A CHYRSIAU HYFFORDDI

Rhowch fanylion am gymwysterau addysgol a enillwyd ac unrhyw gyrsiau hyfforddi yr aethpwyd arnynt. Os ydych ar hyn o bryd mewn addysg amser llawn neu ran-amser, rhowch fanylion y cymwysterau rydych yn astudio ar eu cyfer.

Cymwysterau a Enillwyd / Teitl y Cwrs (nodwch y lefel)	Gradd (lle y bo'n berthnasol)	Dyddiad yr Enillwyd (lle y bo'n berthnasol)

AELODAETH BRESENNOL O SEFYDLIADAU PROFFESIYNOL

Rhowch fanylion unrhyw aelodaeth bresennol o sefydliadau proffesiynol (lle y bo'n briodol i'r swydd).

Sefydliad	Statws Aelodaeth	Dyddiad Dechrau'r Aelodaeth

ARGAELEDD

Os cewch eich gwahodd, a gawn gysylltu â chi yn y gwaith? Gallwch ☐ Na allwch ☐

A oes gennych unrhyw wyliau neu ymrwymiadau perthnasol eraill? Os oes, nodwch y rhain:

ANABLEDD

Rydym yn gwarantu gwahodd ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r gofynion.

A ydych o'r farn bod gennych anabledd? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

A oes gennych unrhyw ofynion arbennig i'ch galluogi i fynd am gyfweliad? Oes ☐ Nac oes ☐

CYMWYSTERAU GYRRU (lle y bo'n briodol ar gyfer y swydd)

A ydych yn meddu ar drwydded yrru lawn, gyfredol a dilys? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

A oes gennych ddefnydd rheolaidd o gerbyd? Oes ☐ Nac oes ☐

COLLFARNAU TROSEDDOL / GWAHARDDIADAU

Os ydych wedi eich collfarnu am unrhyw drosedd, rhaid i chi ei datgelu oni bai ei bod 'wedi darfod' o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Fodd bynnag, os yw'r maes rydych yn gwneud cais amdano yn golygu y byddwch yn dod i gysylltiad sylweddol â phlant, y rhai sy'n agored i niwed neu'r henoed, **RHAID** ichi ddatgelu unrhyw gollfarnau, gorchmynion rhwymo neu rybuddion pa un a ydynt yn rhai cyfredol neu rai 'wedi darfod'. Os bydd cyflogaeth yn cael ei chynnig, gallai methu datgelu'r rhain ac ymchwiliadau pellach arwain at gamau disgyblu neu ddiswyddo. Efallai y bydd yr holl swyddi â mynediad at blant, y rhai sy'n agored i niwed neu'r henoed hefyd yn amodol ar ddatgeliad am unrhyw gollfarnau troseddol. Nid yw datgelu collfarn neu rybudd o reidrwydd yn golygu na fyddwch yn cael eich penodi. Bydd addasrwydd yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r holl wybodaeth sydd ar gael.

Rhowch fanylion a dyddiadau:

(a) unrhyw gollfarnau (gan gynnwys troseddau gyrru) a/neu

(b) gwaharddiadau rhag gyrru neu gynnal dyletswyddau proffesiynol

GEIRDA

Nodwch isod enwau dau ganolwr sydd wedi cytuno i roi geirda ar eich rhan, **y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn gyflogwr presennol neu eich cyflogwr diweddaraf.** Yn achos ymgeiswyr sy'n gadael addysg amser llawn, neu sydd heb weithio ers gwneud hynny, dylid enwi Pennaeth yr Ysgol, Coleg neu Brifysgol fel un o'r canolwyr.

Nid yw geirda gan ffrindiau neu berthnasau yn dderbyniol.

Enw		Enw	
Cyfeiriad		Cyfeiriad	
Cod Post		Cod Post	
Rhif Ffôn		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad E-bost		Cyfeiriad E-bost	
Perthynas â chi (e.e. Rheolwr)		Perthynas â chi (e.e. Rheolwr)	
A hoffech inni ymgynghori â chi cyn i ni gysylltu â'r canolwr hwn?		A hoffech inni ymgynghori â chi cyn i ni gysylltu â'r canolwr hwn?	
Hoffwn ☐ Na Hoffwn ☐		Hoffwn ☐ Na Hoffwn ☐	

DATGANIAD

Rwy'n datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth bod y wybodaeth ar y cais hwn yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall y gall unrhyw ddatganiadau anwir neu fethu datgelu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen gais hon arwain at anghymhwyso fy nghais.

Llofnod: Dyddiad:

DIOGELU DATA

Bydd yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Os cewch eich penodi, bydd y cais hwn yn sail i'ch ffeil bersonol a gellir cadw gwybodaeth ar y ffurflen hon ar gyfrifiadur. Byddwn yn arsylwi cyfrinachedd llym a bydd datgeliadau dim ond yn cael eu gwneud at ddibenion y gyflogres, gweinyddu cyflogaeth ac ystadegol. Os bydd eich cais am y swydd hon yn aflwyddiannus bydd eich manylion yn cael eu cadw am gyfnod o naw mis ac yna yn cael eu dinistrio.

FFURFLEN BARHAU

(Gallwch barhau ar ddalenni ychwanegol, yn amodol ar uchafswm o ddwy ochr o A4).

PEIDIWCH Â DILEU'R ADRAN HON

Enw:

Monitro Cyfle Cyfartal

CYFLE CYFARTAL

Defnyddir y wybodaeth hon at ddibenion monitro yn unig.

CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN HON

- Ticiwch y blychau priodol.
- Ym mlwch 1 nodwch y cyhoeddiad, e.e. Hereford Journal neu bapur newydd proffesiynol.
- Categorïau tarddiad ethnig Cyfrifiad Cenedlaethol 2001 a ddefnyddir.
- Nid yw cwestiynau tarddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni na dinasyddiaeth. Maent yn ymwneud â grwpiau ethnig eang. Gall dinasyddion y DU berthyn i unrhyw rai o'r grwpiau hyn.
- Os ydych yn deillio o fwy nag un grŵp, ticiwch yr un rydych yn perthyn iddo yn eich barn chi neu defnyddiwch y categori 'arall' a rhowch fanylion.
- Yn ôl Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 mae gan berson anabledd os oes ganddo/ganddi nam corfforol neu feddyliol sydd yn effeithio'n sylweddol ac yn hirdymor ar ei allu/gallu i gyflawni gweithgareddau arferol bywyd bob dydd.

MONITRO CYFLE CYFARTAL

Gweler y nodiadau drosodd cyn llenwi'r ffurflen hon.

1. Nodwch lle y gwelsoch y swydd hon yn cael ei hysbysebu

2. Rhyw

Gwryw ☐ Benyw ☐

3. Disgrifiwch eich band oedran presennol

Hyd at 19 ☐ 20-29 ☐ 30-39 ☐ 40-49 ☐ 50-59 ☐ Dros 60 ☐

4. Sut y byddech yn disgrifio eich tarddiad ethnig?

a) Gwyn

Sais/Saesnes ☐ Albanwr/Albanes ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon ☐ Cymro/Cymraes ☐

Teithiwr Gwyddelig ☐ Roma/Sipsi ☐

Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch os gwelwch yn dda)

b) Du

Prydeinig ☐ Sais/Saesnes ☐ Albanwr/Albanes ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon ☐

Cymro/Cymraes ☐ Gwyddel/Gwyddeles ☐ Affricanaidd ☐ Caribïaidd ☐

Cefndir du arall (nodwch os gwelwch yn dda)

c) Asiaidd

Prydeinig ☐ Sais/Saesnes ☐ Albanwr/Albanes ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon ☐

Cymro/Cymraes ☐ Gwyddel/Gwyddeles ☐ Indiaidd ☐ Pacistanaidd ☐ Bangladeshaidd ☐

Cefndir Asiaidd arall (nodwch os gwelwch yn dda)

d) Tsieineaidd

Prydeinig ☐ Sais/Saesnes ☐ Albanwr/Albanes ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon ☐

Cymro/Cymraes ☐ Gwyddel/Gwyddeles ☐

Cefndir Tsieineaidd arall (nodwch os gwelwch yn dda)

e) Cymysg

Prydeinig ☐ Sais/Saesnes ☐ Albanwr/Albanes ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon ☐

Cymro/Cymraes ☐ Gwyddel/Gwyddeles ☐ Gwyn a Thsieineaidd ☐

Cefndir Cymysg arall (nodwch os gwelwch yn dda)

f) Arall

Cefndir Cymysg arall (nodwch os gwelwch yn dda)

5. A ydych o'r farn bod gennych anabledd yn unol â thelerau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

6. A ydych yn cael eich cyflogi gan Halo ar hyn o bryd?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

The Support Centre, Lion Yard, Broad Street,
Leominster, Herefordshire, HR6 8BT.

Halo yn ymrwymedig i ddod yn gyflogwr o ddewis.

halo®

www.haloleisure.org.uk